Bwletin Broadcast and On Demand

4 Tachwedd 2024



# Nodyn i Ddarlledwyr – Diweddariad ar ddull gweithredu Ofcom yng nghswllt ymchwiliadau o dan Reolau 5.1 a 5.3 Cod Darlledu Ofcom

Ar 18 Mawrth 2024, cyhoeddodd Ofcom nifer o benderfyniadau a oedd yn ymwneud â gwleidyddion yn bod yn ddarllenwyr newyddion, yn gyfwelwyr newyddion neu'n ohebwyr newyddion ar y teledu[1]. Canfu Ofcom fod pum rhaglen a ddarlledwyd ar GB News wedi torri Rheolau 5.1 a 5.3 Cod Darlledu Ofcom. Yn yr achosion hyn, roedd gwleidyddion wedi bod yn ddarllenwyr newyddion, yn gyfwelwyr newyddion neu'n ohebwyr newyddion mewn cynnwys a oedd yn newyddion, heb gyfiawnhad eithriadol, ac felly nid oedd y newyddion yn cael eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

Mae GB News yn herio dau o'r penderfyniadau hyn sy'n ymwneud â rhaglenni a gyflwynwyd gan Jacob Rees-Mogg[2] drwy adolygiad barnwrol. Mae'r hawliad yn ystyried, ymysg pethau eraill, cwmpas a chymhwysiad cywir Rheolau 5.1 a 5.3. Mae Ofcom yn glynu wrth y penderfyniadau hyn ac yn amddiffyn yr hawliad.

Mae'r sefyllfa reoleiddio o ran cymhwyso Rheolau 5.1 a 5.3 mewn achosion sy'n cynnwys gwleidyddion yn cyflwyno cynnwys newyddion yn parhau fel y nodir yn y penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2024. Fodd bynnag, mae'r Llys Gweinyddol newydd orchymyn cynnal gwrandawiad brys ar y mater hwn ym mis Ionawr 2025. Felly, yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Ofcom wedi penderfynu peidio â dod i benderfyniad terfynol mewn unrhyw ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt sy'n cynnwys gwleidyddion yn bod yn gyflwynwyr sy'n ymwneud â Rheolau 5.1 a 5.3 cyn i ni gael dyfarniad y Llys. Mae pob trwyddedai sy'n destun yr ymchwiliadau hyn eisoes wedi cael gwybod.

Mae'n bwysig bod pob trwyddedai yn gwybod y byddwn yn parhau i agor unrhyw ymchwiliadau newydd i raglenni sy'n cynnwys gwleidyddion fel cyflwynwyr ac sy'n codi materion sy'n cyfiawnhau ymchwiliad o dan Reolau 5.1 a 5.3, ac rydym yn disgwyl i'r rheini sy'n dal trwyddedau roi eu sylwadau ar faterion o'r fath. Fodd bynnag, byddwn yn dilyn y dull gweithredu uchod ac ni fyddwn yn dod i benderfyniad terfynol mewn unrhyw ymchwiliadau newydd o'r fath tan ar ôl i ni dderbyn dyfarniad y Llys yn yr adolygiad barnwrol.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y mater hwn, anfonwch e-bost i ofcomstandardsteam@ofcom.org.uk

[1] Gwleidyddion yn bod yn ddarllenwyr newyddion, yn gyfwelwyr newyddion neu'n ohebwyr newyddion.

[2] Darllediad *State of the Nation* Jacob Rees-Mogg ar 9 Mai 2023 ac 13 Mehefin 2023